Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Swydd Ddisgrifiad (SDd) – Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS)

# NPS Band 5

# Cyfarwyddiaeth: Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS)

# Swydd Ddisgrifiad: Uwch Swyddog Prawf

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y Ddogfen** | NPS-JES-0033_ Senior Probation Officer_v4.0 |
| **Math o Ddogfen** | Rheolaeth |
| **Fersiwn** | 4.0 |
| **Dosbarthiad** | Annosbarthedig |
| **Dyddiad Cyhoeddi** | 10/7/2019 |
| **Statws** | Gwaelodlin |
| **Cynhyrchwyd gan** | Pennaeth y Grŵp |
| **Awdurdodwyd gan** | Tîm Gwobrwyo |
| **Tystiolaeth ar gyfer y SDd** | |

**Swydd Ddisgrifiad NPS**

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | Uwch Swyddog Prawf |
| **Cyfarwyddiaeth** | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) |
| **Band** | 5 |

| | |
|---|---|
| **Trosolwg o'r swydd** | Mae hon yn swydd reolaethol o fewn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS).<br><br>Mae'r Uwch Swyddog Prawf yn cefnogi'r Pennaeth Swyddogaeth Weithredol i ddarparu rôl reolaethol ac arweiniol o fewn yr Uned Gyflawni Leol (LDU) neu uned weithredol arall. |
| **Crynodeb** | Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd reoli ac arwain staff o fewn y maes gweithredol i'r safon ofynnol, a bydd yn cynnig cefnogaeth a chymorth i dimau/swyddogaethau eraill yn ystod cyfnodau o absenoldeb.<br>Yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y NPS, bydd rhaid i ddeiliad y swydd arddangos ymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant bob amser a deall eu bod yn berthnasol i'r gwaith maent yn ei wneud.<br>Rhaid i ddeiliad y swydd gadw at bob polisi sy'n ymwneud â natur sensitif/gyfrinachol yr wybodaeth a gaiff ei thrin wrth weithio yn y swydd hon.<br><br>Os yw'n berthnasol i'r rôl, efallai bydd gofyniad i chi weithio y tu allan i oriau gwaith arferol. |

| | |
|---|---|
| **Cyfrifoldebau, Gweithgareddau a Dyletswyddau** | Efallai y bydd yn ofynnol i Uwch Swyddogion Prawf ymgymryd ag unrhyw gyfuniad, neu bob un, o'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a nodir isod.<br>• Darparu rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol i'r tîm<br>• Bod yn atebol am ansawdd cyflwyno arferion da a gwella perfformiad y tîm o fewn polisi a safonau cenedlaethol<br>• Sicrhau bod holl adnoddau'r tîm, gan gynnwys ymyriadau, yn cael eu defnyddio mewn modd cost effeithiol ac yn rhoi'r gwerth gorau o ran rheoli'r gyllideb a gwireddu nodau strategol y sefydliad<br>• Sicrhau bod staff yn gallu bodloni gofynion contract NPS gyda HMPPS, Cwmnïoedd Adsefydlu Cymunedol (CRC) a cynlluniau busnes lleol yn ôl y gofyn.<br>• Cael mynediad at, dehongli a dadansoddi data perfformiad a'i ddefnyddio mewn ffordd rhagweithiol i wella perfformiad yr LDU / tîm, gwerthuso arferion a chyflawni nodau y sefydliad<br>• Rheoli datblygiad staff, materion yn ymwneud â thanberfformio, presenoldeb, iechyd a diogelwch, cysylltiadau rhwng gweithwyr a materion amrywiaeth mewn ffordd ragweithiol. Mabwysiadu safbwynt cyson, teg a gwrthrychol wrth wneud penderfyniadau ynghylch materion staff unigol<br>• Sicrhau bod rheolwyr troseddwyr yn rheoli risg yn briodol a bodloni'r holl safonau a thargedau diogelu'r cyhoedd<br>• Cyfrannu'n uniongyrchol i ddiogelu'r cyhoedd trwy drefniadau amlasiantaethol ac adolygu, trafod a rhoi adborth ar waith achos unigol<br>• Hyrwyddo diwylliant o arloesi a gwelliant parhaus o ran darparu gwasanaeth.<br>• Rheoli adnoddau ariannol ar gyfer eich maes cyfrifoldeb fel sy'n ofynnol gan eich Pennaeth Swyddogaeth Gweithredol ac yn unol â rheoliadau a pholisïau ariannol HMPPS. Awdurdodi gwariant o fewn terfynau ariannol<br>• Yn unol â'r cynllun busnes, cyflawni rôl arweiniol a darparu cyfeiriad wrth weithio â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, a chynrychioli'r NPS fel sy'n briodol i'r rôl<br>• Hwyluso cyfathrebu effeithiol rhwng tîm rheoli'r LDU/Uned Weithredol a phartneriaid mewnol ac allanol<br>• Chwarae rôl weithredol wrth reoli NPS ar lefel gorfforaethol yn ôl y gofyn, fel aelod o'r LDU/Tîm Rheoli'r Uned Weithredol<br>• Ymgymryd â meysydd cyfrifoldeb penodol fel y dirprwyir gan Bennaeth y Swyddogaeth Weithredol. |

| | |
|---|---|
| | • Dangos sgiliau modelu cymdeithasol drwy atgyfnerthu ymddygiad ac agweddau cymdeithasol yn gyson a herio ymddygiad ac agweddau gwrthgymdeithasol<br>• Ymgymryd â dyletswyddau diogelu plant yn unol â chyfrifoldebau statudol yr NPS a pholisïau asiantaethau<br>• Gweithio o fewn nodau a gwerthoedd NPS a HMPPS<br><br>Mae'r dyletswyddau/cyfrifoldebau a restrir uchod yn disgrifio'r swydd fel y mae ar hyn o bryd, ac nid yw'n rhestr gyflawn. Disgwylir i ddeiliad y swydd dderbyn addasiadau rhesymol a thasgau ychwanegol sydd ar lefel debyg a allai fod yn angenrheidiol. Os bydd addasiadau sylweddol mae'n bosib y bydd angen ystyried y swydd unwaith eto o dan y cynllun Gwerthuso Swydd, a thrafodir hynny â deiliad y swydd yn y lle cyntaf. |
| **Ymddygiadau** | • Gweithio gyda'n Gilydd<br>• Datblygu Eich Hun a Phobl Eraill Cyflawni ar Gyflymder<br>• Rheoli Gwasanaeth o Safon<br>• Gwneud Penderfyniadau Effeithiol<br>• Cyfathrebu a Dylanwadu<br>• Arweinyddiaeth |

| | |
|---|---|
| **Cryfderau** | Cynghorir bod cryfderau yn cael eu dewis yn lleol, argymhellir 4-8 |
| **Profiad Hanfodol** | • Profiad helaeth gyda chyfnod profedig o arferion da mewn amryw o amgylchiadau (gan gynnwys asesiadau risg a rheoli troseddwyr) fel Swyddog Prawf neu weithio o fewn asiantaeth cyfiawnder troseddol arall neu gyd-destun gwaith cysylltiedig<br>• Dealltwriaeth o rôl y Gwasanaeth Prawf yn y System Cyfiawnder Troseddol ac mewn cyd-destun amlddisgyblaethol<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymgysylltu â dioddefwyr<br>• Profiad o reoli ac asesu risg, dealltwriaeth o weithdrefnau asesu a rheoli risg ar lefel amlasiantaethol<br>• Tystiolaeth o'r gallu i werthuso arferion<br>• Tystiolaeth o'r gallu i darparu persbectif ymarfer ar ddatblygu polisïau<br>• Profiad o weithio dan bwysau a chyflawni yn erbyn terfynau amser tynn<br>• Profiad o weithio'n hyblyg fel aelod o dîm i gyflawni targedau perfformiad<br>• Profiad o gyfrannu at ddarparu systemau gweinyddol a systemau gwybodaeth effeithiol<br>• Profiadau dangosadwy mewn rheoli/cefnogi newid a rhoi gwelliannau ar waith o ran safon ac effeithlonrwydd<br>• Gallu dangos sgiliau TG da, gan gynnwys tystiolaeth o'r gallu i ddehongli adroddiadau perfformiad a'u rhoi ar waith<br>• Profiad o hybu a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn fewnol ac yn allanol<br>• Y gallu i roi polisïau iechyd a diogelwch y gwasanaeth ar waith<br><br>Y gallu i gyflawni pob agwedd lafar o'r rôl yn hyderus drwy gyfrwng y Saesneg neu (pan bennir yng Nghymru) yn Gymraeg. |
| **Gofynion technegol** | • Fframwaith Cymwysterau y Gwasanaeth Prawf – Diploma i Raddedigion /Gradd Anrhydedd mewn Cyfiawnder Cymunedol wedi'i integreiddio â Diploma lefel 5 mewn Arferion Gwaith Prawf<br>• Neu gymhwyster a gafodd ei gydnabod ar adeg graddio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn unol ag Adran 10 Deddf Rheoli Troseddwyr 2007. Cydnabuwyd yn flaenorol bod y cymwysterau canlynol a enillwyd yng Nghymru a Lloegr yn darparu cymhwysedd o'r fath:<br>• Diploma mewn Astudiaethau Prawf,<br>• Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol (gydag opsiwn Prawf)<br>• CQSW (gydag opsiwn Prawf) |
| **Gallu** | |

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau Gofynnol** | *Peidiwch â newid y blwch hwn*<br><br>• Bydd archwiliadau adnabod a diogelwch yn cael eu cynnal ar bob ymgeisydd cyn iddo/iddi gychwyn swydd.<br>• Bydd rhaid i bob ymgeisydd allanol gwblhau cyfnod prawf o 6 mis. Bydd rhaid i ymgeiswyr mewnol gwblhau cyfnod prawf os nad ydynt eisoes wedi cwblhau cyfnod prawf o fewn HMPPS.<br>• Bydd rhaid i'r holl staff ddatgan a ydynt yn aelod o grŵp neu sefydliad sy'n cael ei ystyried yn hiliol gan HMPPS. |

| | |
|---|---|
| **Oriau Gwaith (Lwfansau am weithio oriau anghymdeithasol)** | |

**Proffil Llwyddiant**

| Ymddygiadau | Cryfderau<br>Cynghorir bod cryfderau yn cael eu dewis yn lleol, argymhellir 4-8 | Gallu | Profiad | Technegol |
|---|---|---|---|---|
| Gweithio gyda'n Gilydd | | | Profiad helaeth gyda chyfnod profedig o arferion da mewn amryw o amgylchiadau (gan gynnwys asesiadau risg a rheoli troseddwyr) fel Swyddog Prawf neu weithio o fewn asiantaeth cyfiawnder troseddol arall neu gyd-destun gwaith cysylltiedig | Fframwaith Cymwysterau Prawf – Diploma i Raddedigion /Gradd Anrhydedd mewn Cyfiawnder Cymunedol wedi'i integreiddio â Diploma lefel 5 mewn Arferion Gwaith Prawf |
| Datblygu Eich Hun a Phobl Eraill | | | Profiad o reoli ac asesu risg, dealltwriaeth o gweithdrefnau asesu a rheoli risg ar lefel amlasiantaethol | Neu gymhwyster a gafodd ei gydnabod ar adeg graddio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn unol ag Adran 10 Deddf Rheoli Troseddwyr 2007. Cydnabuwyd yn flaenorol bod y cymwysterau canlynol a enillwyd yng Nghymru a Lloegr yn darparu cymhwysedd o'r fath:<br>• Diploma mewn Astudiaethau Prawf,<br>• Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol (gydag opsiwn Prawf)<br>• CQSW (gydag Opsiwn Prawf) |
| Cyflawni ar Gyflymder | | | Tystiolaeth o'r gallu i werthuso arferion a darparu persbectif ymarfer ar ddatblygu polisïau | Dealltwriaeth o rôl y Gwasanaeth Prawf yn y System Cyfiawnder Troseddol ac mewn cyd-destun amlddisgyblaethol |
| Rheoli Gwasanaeth o Safon | | | Profiad o weithio dan bwysau a chyflawni yn erbyn terfynau amser tynn | Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymgysylltu â dioddefwyr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwneud Penderfyniadau Effeithiol | | | Profiad o weithio'n hyblyg fel rhan o dîm i gyflawni targedau perfformiad | Gallu dangos sgiliau TG da, gan gynnwys tystiolaeth o'r gallu i ddehongli adroddiadau perfformiad a'u rhoi ar waith |
| | | | | |
| Cyfathrebu a Dylanwadu | | | Profiad o gyfrannu at ddarparu systemau gweinyddol a systemau gwybodaeth effeithiol | |
| Arweinyddiaeth | | | Profiadau dangosadwy mewn rheoli/cefnogi newid a rhoi gwelliannau ar waith o ran safon ac effeithlonrwydd | |
| | | | Profiad o hybu a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn fewnol ac yn allanol | |
| | | | Tystiolaeth o'r gallu i roi polisïau iechyd a diogelwch y gwasanaeth ar waith | |